

Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog Plant, Gofal Hŷn a Gofal Cymdeithasol

30 Gorffennaf 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet, ac annwyl Weinidog

### **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019–20**

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor fore dydd Mercher 7 Tachwedd i roi tystiolaeth yn ymwneud â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019–20.

Caiff y sesiwn dystiolaeth ei chynnal am 09:15 – 10:30 yn y Senedd, Bae Caerdydd. Bydd y Clerc yn cadarnhau'r lleoliad yn agosach at y dyddiad.

Rydym wedi cael gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid sy'n nodi'r egwyddorion y mae wedi cytuno arnynt o ran gwaith craffu ariannol, ynghyd â nifer o feysydd yr hoffent weld pwyllgorau yn canolbwyntio arnynt o ran eu gwaith craffu, sef:

- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca, yn enwedig o ran Cyfradd Treth Incwm Cymru
- Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- Polisiâu Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol, a lliniaru diwygio lles



- Gwaith cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit
- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am y materion cyllidebol a amlygir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn erbyn dydd Iau 25 Hydref.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dai Lloyd'.

**Dai Lloyd AC/AM**  
Cadeirydd/Chair

## **Atodiad 1**

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Gofal Hŷn a Gofal Cymdeithasol i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2019–20.**

### **Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2019–20 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, camau gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
- Dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dangosol 2020–21.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2019–20, ac esboniad arnynt, a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2018).

Yn ychwanegol at y pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol (lle nad yw eisoes wedi'i gynnwys yn y sylwadau ar bob cam gweithredu):

### **Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y pedwar bwrdd iechyd sydd wedi parhau i fethu â bodloni eu dyletswyddau ariannol, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi i wella'r sefyllfa hon.
  - Y cynnydd a wnaed gan bob un o'r pedwar bwrdd iechyd hyn wrth gyflwyno eu cynlluniau gweithredu. (Ym mis Mehefin 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr holl fyrddau iechyd a oedd yn adrodd diffygion ariannol yn 2017–18 wedi llunio a chyhoeddi cynlluniau

gweithredu, a bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynnydd hwnnw wrth gyflawni'r rhain).

- Pa welliannau perfformiad/gwasanaeth y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl o'r cyllid rheolaidd ychwanegol, sef £27 miliwn, a roddir i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o 2018–19.

### **Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd**

- Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a wnaed ym mis Rhagfyr 2017, fel y nodir yn ei [adroddiad](#) ar gyllideb ddrafft 2018–19. Dylai hyn gynnwys manylion am ddyraniadau cyllideb perthnasol ar gyfer 2019–20.

### **Llesiant cenedlaethau'r dyfodol**

- Tystiolaeth o sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a phum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn cael manylion ynghylch sut y bydd y gyllideb, yn y dyfodol, yn gwneud y canlynol:
  - blaenoriaethu atal/ymyrryd yn gynnar ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;
  - cefnogi dull cyllido cynaliadwy, tymor hwy ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol;
  - hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
  - sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy;
  - lleihau a rheoli gwariant ar staff asiantaeth;
  - lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.

### **Trawsnewid**

- Rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu trawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy (hynny yw, y tu hwnt i gyfnod y

Gronfa Trawsnewid o 2 flynedd), er mwyn sicrhau y gellir cynnal cynnydd ar yr agenda drawsnewid.

## TGCh

- Pa asesiad a wnaed o gostau cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digidol a data, fel y nodir yn *Cymru Iachach*.

## Gofal sylfaenol

- Y gyllideb a ddyrennir ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, a sut y mae hyn yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. I ba raddau y mae hyn yn cyflawni'r nod polisi, sef symud gofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol.

## Iechyd meddwl

- Blaenoriaethau gwasanaethau iechyd meddwl dros y tair blynedd nesaf. Dyraniadau/gwariant rhagamcanol ar gyfer cyflwyno'r rhain.
- Pa ddulliau a gaiff eu defnyddio i olrhain gwariant ar iechyd meddwl yn ôl canlyniadau cleifion.